TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

LLENYDDIAETH GYMRAEG

HAF 2015

© WJEC CBAC Cyf.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
Uned 1	1
Uned 2	5
Uned 3	7

UNED 1

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2015

Prif Arholwr: *Manon Jones Maddock*

Unwaith eto eleni mae ein diolch yn fawr i athrawon Adrannau Cymraeg am baratoi manwl a thrylwyr ar gyfer yr arholiad ar draws y ddwy haen. Mae disgyblion Cymru yn elwa o astudio Llenyddiaeth Gymraeg ac felly siom a gofid i ni yw gweld nifer yr ymgeiswyr wedi gostwng ychydig eto eleni. Mae disgyblion yn elwa o astudio llenyddiaeth o ran codi eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru yn ogystal â cyfoethogi a datblygu eu sgiliau ieithyddol.

Mae'r fanyleb wedi ei hen sefydlu bellach ac mae'r arferion da o baratoi ymgeiswyr i ateb yn drefnus a dyfynnu'n bwrpasol i'w gweld yn glir a gwelir ôl addysgu da mewn sawl canolfan.

Haen Sylfaenol
Roedd cwestiwn 1 eleni yn ddewis poblogaidd – gan drafod y gerdd 'Glas' yn llwyddiannus iawn. Llwyddodd nifer fawr o ymgeiswyr i ennill marciau yn y band marciau uchaf. Roedd y goreuon yn gallu trafod y cynnwys yn fanwl gan ddyfynnu'n gywir ac yn bwrpasol i gefnogi eu gwybodaeth am y gerdd. Yn anffodus roedd rhai yn drysu rhwng y gerdd hon ac 'Y Môr' gan Einir Jones – o'r herwydd yn colli holl farciau'r cwestiwn oherwydd hyn.

'Y Llwynog' a 'Gail Fu Farw' oedd y cerddi mwyaf poblogaidd i'w trafod yng nghwestiwn 2, ac yma eto gwelwyd dyfynnu effeithiol a phwrpasol wrth drafod y cerddi. Prin iawn oedd y rhai oedd wedi mentro i ateb ar 'Tŷ'r Ysgol'.

Wrth drafod arddull y cerddi, roedd y goreuon yn gallu adnabod y nodweddion arddull amlycaf yn y gerdd, gan drafod eu heffaith yn hynod ddeallus. Ond cafwyd hefyd yn ôl yr arfer yr un ymadroddion stoc "'dangos dychymyg y bardd' neu 'dangos fod y bardd yn meddwl fel plentyn", "creu darlun yn y pen."

Efallai mai'r cwestiwn olaf sy'n gwahanu'r goreuon oddi wrth y gweddill. Roedd rhai o ymgeiswyr yr haen sylfaenol yn gallu trafod y cwestiwn hwn yn well o lawer na gweiniad yr haen uwch. Tuedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yw ailadrodd cynnwys y cerddi yma eto, yn hytrach na thrafod addasrwydd 'Glas' a 'Delyth (fy merch) yn ddeunaw oed' i'w cenhedlaeth hwy. O ran gwella ar y cwestiwn hwn y flwyddyn nesaf - da o beth fyddai atgoffa ymgeiswyr i ddyfynnu wrth drafod y cerddi.

Y Nofel
Heb os, *Llinyn Trôns* oedd y nofel fwyaf poblogaidd eleni eto. Roedd y cwestiwn agoriadol ar bob nofel yn llwyddo i gynhesu'r disgyblion ond roedd nifer eleni wedi cael trafferth gweld beth oedd arwyddocâd y mynydd i blot y stori. Roedd cefndir Meredydd wedi ennill mwy o farciau i ymgeiswyr *Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr.*

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Llwyddodd nifer o ymgeiswyr i ennill marciau teilwng iawn wrth drafod y digwyddiadau yn y nofel - ond roedd llawer o ddryswch hefyd! Roedd tuedd gan rai i ymateb i ddiflaniad Gags ar y bore olaf, yn hytrach na thrafod y digwyddiadau oedd wedi arwain at ddiflaniad Gags. Roedd rhai o ymgeiswyr *Bachgen yn y Môr* hefyd yn dueddol o restru beth ddigwyddodd i'r teulu cyn cyrraedd y cwch. Roedd nifer yn cofio beth oedd hanes Meredydd ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar, gyda'r goreuon yn gallu cofio'r manylion bach, megis cyflwr y tŷ, a'r digwyddiad yn siop Harri Jôs wrth iddo wario mwy o arian yn y siop. Roedd ymatebion *I Ble'r Aeth Haul y Bore?* ar y cyfan yn siomedig wrth i'r ymgeiswyr ddrysu nifer o ddigwyddiadau a dangos diffyg manylder.

Roedd darllen portreadau ymgeiswyr yr haen sylfaenol yn bleser. Roedd y rhelyw wedi eu hyfforddi i drafod y cymeriadau gan ddefnyddio ansoddeiriau a chefnogi'r sylwadau gyda thystiolaeth o'r nofelau.

Mae'r cwestiwn arddull wedi hen ennill ei blwyf - llwyddodd y mwyafrif i drafod effeithiolrwydd y nodweddion a ddyfynnwyd yn y papur, roedd y goreuon yn llwyddo i enwi'r nodwedd yn ogystal â chynnig esboniad ar effaith techneg.

Roedd y cwestiwn olaf – y dasg greadigol yn galonogol. Roedd y rhan fwyaf yn gallu mynd o dan groen y cymeriadau a dangos gwybodaeth drylwyr am y nofel. Y mae diwedd *Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr* yn parhau i beri dryswch i ambell ymgeisydd – nid yw Einir wedi derbyn cynnig Meredydd i'w briodi er bod ambell un yn mynd ati i drefnu priodas yn ddiymdroi!

Roedd safon ymgeiswyr yr haen sylfaenol eleni yn dda iawn, a rhaid canmol y gwaith a wneir mewn canolfannau yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer sefyll yr arholiad hwn.

Haen Uwch

Cwestiwn 1 – 'Y Coed'

Nid oedd cymaint o ymgeiswyr wedi dewis y cwestiwn hwn eleni, efallai am nad oedd rhai wedi disgwyl gweld 'Y Coed' ar y papur. Ond wedi dweud hyn, dyma'r cwestiwn gafodd ei ateb orau o ddigon. Mae'n deg dweud mai'r ymgeiswyr sydd wedi paratoi fwyaf trwyadl sydd yn ymateb i her cwestiwn 1. Roedd yn bleser i weld pobl ifanc yn dadansoddi un o gerddi mawr y ganrif ddiwethaf mor aeddfed ac yn gallu dyfynnu'n helaeth ac ystyrlon i gefnogi eu sylwadau. Roedd y rhan fwyaf wedi sylwi ar yr ychwanegiad i eiriad y cwestiwn gan ymateb yn synhwyrol ac aeddfed i berthnasedd y gerdd i ni heddiw.

Cwestiwn 2 - Themâu Pigo Cydwybod a Natur a Dynoliaeth

Heb os, dyma'r cwestiwn mwyaf poblogaidd eleni, ond yn anffodus roedd y safon yn hynod siomedig. Roedd nifer wedi dewis 'Cydwybod' ac 'Y Coed' i'w trafod – dwy gerdd fawr, ond nid oedd sylwedd i'r ymatebion a gafwyd. Gwelwyd sawl ymgeisydd hefyd wedi ceisio ymateb i thema Natur a Dynoliaeth – gan drafod 'Dangosaf i ti Lendid', Dafydd Rowlands. Yn y fanyleb, nodir y gerdd hon o dan thema Ieuenctid.

Roedd safon un gerdd ar y cyfan yn well na'r llall. Roedd yr ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth "dda" neu "eithaf da" fel arfer o'r cynnwys, yn gallu dyfynnu'n dda – ond nid oeddent yn gallu cyrraedd y band marciau ar y brig fel arfer. Roedd rhai hefyd wedi anghofio sôn am apêl y cerddi a ddewiswyd.

Mae mwyafrif yr ymgeiswyr wedi dysgu eu gwaith yn dda ar gyfer y cwestiwn arddull gan gofio'r 3E - Enwi, Enghreifftio, Effeithiolrwydd. Yn anffodus gwelwyd nifer yn defnyddio'r dyfyniad 'Hiroshima a Nagasaki' ar gyfer enwi lleoedd wrth sôn am gerdd 'Y Coed' – nid yw enw'r ddau leoliad yma yn ymddangos yn y gerdd.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Byddai'n werth i ganolfannau'r flwyddyn nesaf ddweud wrth ymgeiswyr am ddarllen geiriad y cwestiynau yn ofalus iawn. Dwy gerdd yn unig oedd angen eu trafod yn y cwestiwn olaf, serch hyn, gwelwyd nifer yn trafod tair neu fwy o gerddi. Mae'r arfer o ailadrodd cynnwys cerddi yma eto gan y gweiniaid, yn hytrach na thrafod effeithiolrwydd y negeseuon. Roedd ymatebion goreuon yr haen sylfaenol yn well o lawer wrth drafod thema a neges nag oedd gweiniaid yr haen uwch. Ond rhaid rhyfeddu at atebion y goreuon - mae safon ambell ateb yn aeddfed ac yn mynd y tu hwnt i farciau llawn - gobeithio y bydd yr ymgeiswyr hyn yn parhau i astudio Cymraeg ar gyfer Safon Uwch.

Y Nofel.
Mae'n siŵr mai *Yn y Gwaed* ac *Y Stafell Ddirgel* gwelwyd yr atebion gorau eleni, ac mai dyma ddewis nifer o ganolfannau ar gyfer eu setiau uchaf.

Roedd atebion y cwestiwn cyntaf yn amrywiol eu safon. Roedd rhan gyntaf y cwestiwn - sef dewis golygfa oedd yn addas i esbonio teitl y nofel yn llwyddiannus. Gwelwyd disgrifiadau manwl iawn o Richard Jones yn dianc ar ddiwedd y nofel wrth drafod *Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr*. Roedd amrywiaeth o olygfeydd wedi eu dewis o *I Ble'r Aeth Haul y Bore?* - y bennod agoriadol ar ôl i Haul y Bore gael ei threisio a llofruddiaeth Chiquito - neu glo'r nofel wrth iddi gael ei saethu. Er bod rhai atebion da i'w gweld ar addasrwydd teitl i blot y nofel roedd nifer o ymgeiswyr y ddwy nofel hon wedi cael trafferth gyda'r rhan hon o'r cwestiwn. Roedd nifer yn anghofio am y prolog yn *Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr* a'r ffaith bod y môr yn gefndir i ddigwyddiadau'r nofel - y stori serch, rhwng Meredydd ac Einir a sut roedd y môr wedi twyllo Richard Jones wrth iddo ddianc ar y diwedd. Roedd symbolaeth Haul y Bore a diffyg gobaith yr Indiaid wedi drysu rhai wrth esbonio teitl nofel Eirug Wyn.

Cafwyd atebion aeddfed iawn wrth drafod addasrwydd y teitl a golygfa *Y Stafell Ddirgel.* Dewisodd nifer yr olygfa ble mae Rowland Ellis yn ymuno â chyfarfod y Crynwyr am y tro cyntaf. Wrth astudio teitl y nofel yn y dyfodol - byddai'n werth i ganolfannau roi sylw i arwyddocâd geiriau Morgan Llwyd ac addasrwydd y teitl o safbwynt crefydd y Crynwyr mai y stafell ddirgel yw calon pob Crynwr - mae Duw yn siarad â nhw yn eu calonnau. Dewisiwyd amrywiaeth o olygfeydd yn y nofel *Yn Y Gwaed*. Trafodwyd hunllefau Robin ac arwyddocâd y gwaed o safbwynt yr holl losgach sydd yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig Arllechwedd. Gallai'r goreuon weld arwyddocâd y lliw coch sydd yn ymddangos yn hunllefau Robin ac ystyried y symbolaeth y tu ôl i'r holl waed a gollwyd ar dir Arllechwedd - y garreg wen a diwedd trychinebus Mared a Robin.

Mae cwestiwn (b) yn parhau yn broblem i nifer o ganolfannau. Eleni gofynnwyd i'r ymgeiswyr ateb y cwestiwn sut mae'r awdur yn cyfleu cymeriad… yn y dyfyniad. Yr allwedd i'r cwestiwn hwn yw '**sut** mae'r awdur yn **cyfleu**' sy'n gofyn i ymgeiswyr drafod technegau ysgrifennu a ddefnyddia'r awdur i gyfleu'r cymeriad. Weithiau wrth farcio canolfan, gwelir rhai grwpiau dysgu yn medru ateb y cwestiwn hwn yn fendigedig tra gwelir bod gwendid amlwg mewn ambell grŵp dysgu arall lle na baratowyd yr ymgeiswyr i ateb ar naws ac arddull y darn a dyfynnir. Mae'r goreuon sydd wedi eu hyfforddi yn gallu ateb y cwestiwn hwn yn gywir ac yn llawn gan roi atebion penigamp a cheir hyd yn oed atebion teilwng iawn gan rai canolig eu gallu os ydynt wedi eu hyfforddi yn ddigonol. Unwaith eto eleni, gwelwyd nifer yn mynd ar goll yn llwyr wrth ateb y cwestiwn hwn gan aralleirio'r darn. Wrth ddadansoddi'r data sydd ar wefan ddiogel CBAC yn dilyn y canlyniadau awgrymir bod ambell Adran Gymraeg yn ymweld â deunyddiau Adolygiad Arholiad Ar-lein http://aaa.cbac.co.uk/ er mwyn gweld sut mae ateb y cwestiwn hwn yn llwyddiannus.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Gallai'r goreuon gyfleu cymeriad tanllyd Gladys Davies gan gyfeirio at y gyffelybiaeth, y rhestru cwestiynau, brawddegau byrion a'i hiwmor. Roedd Dicks ar y llaw arall yn cael ei gyfleu fel cymeriad atgas gan gyfeirio at y modd roedd yn chwarae ar deimladau er mwyn ennill cydymdeimlad ei filwyr, y frawddeg fer yn cynhyrfu emosiwn y Cotiau Glas, a'r trosiad yn cyfleu ei gynddaredd. Gwelwyd portreadau gwych o arswyd Dorcas wrth gwestiynu Shadrach yn ei galw'n hŵr, ei hiaith foel a diaddurn, y diffyg deialog yn cyfleu ei hofn, y gyffelybiaeth a'r brawddegu byrion yn dangos llif ei meddwl call. Roedd y brawddegau byrion, yr ailadrodd a'r cwestiynu yn *Yn Y Gwaed* yn cyfleu natur wyllt Robin, y berfau pendant yn cyfleu cryfder ei gymeriad yn gwrthod ymateb i orchmynion y Fam.

Y cwestiwn creadigol oedd gryfaf eleni. Yn anffodus dryswyd wrth ymateb i Meredydd – roedd geiriad y cwestiwn yn gofyn iddynt ymateb yn syth wedi iddo ddychwelyd o'r carchar a chafwyd sawl un oedd yn cyfeirio at bethau oedd yn llawer rhy ddiweddar e.e. cyfarfod Einir, gweld Bethan a'i mam yn y siop a hyd yn oed gofyn i Einir ddyweddïo.

Roedd ymatebion i ddyddiadur Chico'n dda iawn – yn llwyddo i gyfleu ei arswyd a'i awydd i ddial ar y Cotiau Glas. Gallai'r goreuon gyfeirio at y ffaith iddo droi at Usen am gymorth wrth ddial.

Gwelwyd atebion cofiadwy iawn wrth weld ymateb Ellis Puw i gyflwr carchar Cae Tanws, a'i ofal o Sinai a'i theulu ifanc. Roedd gwybodaeth dda iawn gan yr ymgeiswyr am ddechrau'r nofel *Y Stafell Ddirgel.*

Llwyddodd yr ymgeiswyr wrth ysgrifennu dyddiadur Mared i gyfleu ei rhyddhad ar ôl rhannu'r wybodaeth am ei beichiogrwydd gyda'i Mam er gwaethaf ei hymateb. Ond roedd ei hofn o ysbryd Dewyrth Ifan hefyd yn amlwg.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

UNED 2

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2015

Uwch Arholwr: *Tudur Dylan Jones*

Cyflwyniad
Cynhaliwyd yr arholiadau llafar Sylfaenol ac Uwch ar Ebrill 20-21 2015.
Haen Uwch: 'Trafodwch y defnydd o gariad a chasineb yn y ffilm a astudiwyd gennych.'
Haen Sylfaenol: 'Trafodwch pa gymeriadau sy'n hapus a/neu gymeriadau sy'n drist yn y ffilm/ffilmiau a astudiwyd gennych.'

Gweinyddu
Roedd y gwaith gweinyddu yn gyffredinol o safon uchel. Mae mwy a mwy o ysgolion yn defnyddio cyfrifiaduron i recordio. Mae'r safon drwyddi draw yn uchel. Mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i recordio ar fformat sy'n galluogi i'r gwaith gael ei glywed ar gyfrifiadur a pheiriant CD. Mae hyn yn hwyluso'r gwaith i'r safonwyr yn fawr. Rhaid cofio bod angen nodi enwau ar y CD ei hun yn ogystal ag ar y clawr. Atgoffir pob ysgol i wneud hyn. Mae'r wefan ddiogel erbyn hyn wedi dod yn gyfarwydd i'r canolfannau, a phrin iawn oedd enghreifftiau o gofnodi marciau anghywir. Mae'n arfer dda i'r ymgeiswyr eu cyflwyno eu hunain ar ddechrau'r recordiad yn lle bod yr athrawon yn gwneud hynny – mae hyn yn gyfle i'r arholwyr ddod yn gyfarwydd â phwy yw pwy yn y recordiad.

Trafodaeth
Roedd y cwestiynau ar yr haen sylfaenol a'r haen uwch eleni wedi esgor ar drafodaethau safonol iawn. Roedd treiddgarwch ac aeddfedrwydd i'w weld gan y goreuon, a chanolfannau'n amlwg wedi eu paratoi'n drylwyr. Mae mwy a mwy o ysgolion yn amlwg yn llwyddo i gael y gorau allan o'u disgyblion drwy ymarfer ddigon ymlaen llaw, a chyflwyno termau a strategaethau i drafod yn goeth a deallus.

Dyma nodweddion gorau canran uchel o'r ymgeiswyr a'r canolfannau: Gwrando ar bwyntiau ei gilydd/siarad yn naturiol ac ymateb i'w gilydd/gwau AA1 ac AA2 yn naturiol i mewn i'r drafodaeth yn lle eu trafod ar wahân/ystyried y cwestiwn ymhob cyfraniad/cloi'r drafodaeth yn effeithiol.

Roedd rhai canolfannau heb fod wedi ystyried yr holl bwyntiau isod yn llwyr:

Amseru: 'Hyd at ugain munud' yw'r gofyniad. Cafwyd enghreifftiau eleni o fynd ymhell dros amser yn ogystal â dod â'r drafodaeth i ben ar ôl llai na chwarter awr.

Cwestiwn: Mae rhai'n dal i geisio dangos popeth mae'n nhw'n ei wybod am y ffilm/ffilmiau yn hytrach na defnyddio'r wybodaeth i ateb y cwestiwn yn fanwl.

Ymyrraeth: Cymorth mewn cyfyng gyngor ddylai ymyrraeth athro/athrawes fod e.e. pan fo bwlch amlwg yn y drafodaeth/crwydro oddi ar y cwestiwn/ffeithiau anghywir/sicrhau amseru cywir.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Nifer aelodau: Tri ymgeisydd ddylai fod yn gweithio gyda'i gilydd yn ddelfrydol. Pan mae hyn yn amhosib o ran niferoedd mewn dosbarth, dylid ystyried fod pedwar yn rhif rhy uchel i fod mewn grŵp. Dylid rhoi dau grŵp o ddau yn lle un grŵp o bedwar.

Clo

Diolch yn fawr unwaith eto i'r holl athrawon a chanolfannau am eu gwaith trylwyr. Mae'r rhan fwyaf o gannolfannau'n dangos gofal mawr wrth baratoi. Pob hwyl wrth weithio tuag at brofion y flwyddyn nesaf.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Uned 3

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2015

Prif Arholwr: *Manon Jones Maddock*

Unwaith eto eleni rhaid diolch i'r holl ganolfannau am yr holl waith gweinyddol trefnus. Derbyniwyd y gwaith yn brydlon gan amlaf, ac wedi ei gyflwyno mewn ffolderi trefnus. Mae rhai canolfannau hefyd i'w canmol am nodi cefndir y tasgau ar y taflenni a ddarperir gan CBAC ac mae ambell ganolfan yn cymryd gofal i gyflwyno taflenni ychwanegol at hyn. Mae'n ofynnol hefyd i nodi dyddiad cyflawni'r tasgau ar y gwaith ar y taflenni blaen - nid yw hyn yn digwydd bob tro.

Gweinyddu

Cryfderau

- Cyflwyno'r gwaith yn brydlon gan y rhan fwyaf o'r canolfannau
- Arfer dda oedd amgáu copi o restr o'r enwau a'r marciau ar y sampl – argraffu'r daflen o'r wefan ddiogel
- Ffeiliau trefnus wedi'u labelu'n glir
- Cymorth mawr oedd gweld rhan fwyaf o'r canolfannau yn anodi'n glir
- Safoni manwl gan rai canolfannau

Gwendidau

- Ambell ganolfan heb roi teitlau'n glir ar y darnau
- Tuedd gan rai canolfannau i gopïo'r cynllun marcio wrth asesu, heb gyfeirio yn benodol at y gwaith dan sylw
- Prin iawn oedd yr ysgolion a gynhwysodd sylwadau dros gadw neu newid y marc wrth safoni mewnol
- Rhai canolfannau heb gynnwys y daflen baratoi ar gyfer y dasg o dan reolaeth uchel – y straeon byrion
- Dyddiad y tasgau heb eu nodi ar y tasgau / ffurflen

Straeon Byrion

Roedd mwyafrif y canolfannau wedi defnyddio geiriad addas fel cwestiwn ac wedi gwahaniaethu'r dasg yn addas ar gyfer safon yr ymgeiswyr. Mae geirio'r cwestiwn er mwyn mynnu bod yr ymgeiswyr yn ateb gofynion y meini prawf yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddo yn y dasg hon. Gwelwyd mewn nifer o ganolfannau bod ymgeiswyr wedi eu trwytho yng ngofynion meini prawf AA1 ac AA2 ac felly roeddent yn deall yn union beth oedd ei angen wrth ateb y cwestiwn.

Mae nifer o ganolfannau hefyd wedi addysgu'r disgyblion i agor a chloi'r traethawd gyda diffiniad o'r thema neu â gofynion ffurf y stori fer – ond efallai fod hyn weithiau yn mynd ar draul trafod y ddwy stori o dan sylw.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Roedd y goreuon yn gallu cyd-drafod y ddwy stori. Wrth drafod y ddwy stori ar wahân ac yna cymharu ar y diwedd roedd tuedd i ailadrodd cynnwys y straeon. Mae'r canolfannau gorau yn hyfforddi'r ymgeiswyr i drafod nodweddion arddull yn gyson ac yn naturiol yn y gwaith - gan osgoi paragraffau yn rhestru nodweddion arddull ar ddiwedd y gwaith. Unwaith eto eleni, gwelir yr hen arfer o restru a nodi effaith megis "rhoi llun yn y pen…" Mae'r ymgeiswyr gorau ar draws y bandiau marciau yn gallu trafod amrywiaeth o nodweddion arddull yn fanwl. Er mwyn cyrraedd y bandiau uchaf, dylai ymgeiswyr roi sylw i addasrwydd y ffurf e.e. gwelir brawddeg megis: "Mae'r stori ar ffurf ymson ac yn y person cyntaf'. Angen mwy o ddyfnder i gyrraedd y marciau uchaf gan ddyfynnu o'r testun, a thrafod effeithiolrwydd y ffurf i gynnwys y stori. Dylai rhai ymgeiswyr hefyd nodi nad yw pob "fel" yn gyffelybiaeth.

Drama

Rhaid canmol y gwaith a gwblheir ar amrywiaeth o ddramâu gan ganolfannau. Y tasgau mwyaf llwyddiannus oedd y rhai a osodwyd i'r rhai ar frig yr ystod marciau ar y dramâu heriol – ein clasuron yn yr iaith Gymraeg - dramâu Saunders Lewis, Gwenlyn Parry, Dewi Wyn Williams a Meic Povey. Ond wedi dweud hyn, eleni gwelwyd enghreifftiau ble roedd rhai o'r dramâu yma'n rhy heriol i ambell ddosbarth. Byddai ambell ymgeisydd wedi elwa o astudio drama sydd yn cael eu henwi yn y fanyleb fel rhai sy'n addas ar gyfer yr holl ystod gallu. Dyddiaduron ac ymsonau oedd y ffurfiau mwyaf poblogaidd. Yn anffodus, bu'n rhaid gostwng marciau rhai ymsonau a dyddiaduron eleni gan eu bod yn rhy bytiog - sawl diwrnod byr yn lle canolbwyntio ar lai o ddyddiau a'u hymestyn.

Roedd yn ofid i bob un safonwr eleni pryd y cyflawnwyd rhai o'r tasgau hyn. Roedd dyddiad ambell un yn ystod hanner tymor cyntaf Blwyddyn 10 - pan nad oedd yr ymgeiswyr wedi aeddfedu nac wedi cael y profiad o drafod llenyddiaeth yn aeddfed. Gwell fyddai gadael y gwaith hyd nes eu bod wedi astudio cerddi a nofel cyn mynd ati i ysgrifennu traethawd beirniadol ar ddwy stori fer, neu dasg greadigol ar ddrama.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r tîm o safonwyr ac arholwyr am eu gwaith trwyadl yn marcio a safoni gwaith yr ymgeiswyr. Mae'r cydweithio agos sydd rhyngom yn sicrhau tegwch a chysondeb i'r ymgeiswyr.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.